Is-ddeddfwriaeth sydd ag Adroddiadau Clir

06 Rhagfyr 2021

SL(6)090 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Cefndir a diben

Cynigir y dylid cyhoeddi Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (y "Cod") yn unol ag adran 8 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf"). Mae'r Cod yn nodi'r themâu a'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb. ("ACRh").

Mae cynnwys y Cod yn seiliedig ar linynnau dysgu cysylltiedig bras, sef:

- Cydberthnasau a hunaniaeth;
- Iechyd rhywiol a lles;
- Grymuso, diogelwch a pharch.

O dan adran 8(2) a (3) o'r Ddeddf, nid yw cwricwlwm yn cwmpasu elfen fandadol ACRh oni bai ei fod yn cyd-fynd â r ddarpariaeth yn y Cod. At hynny, nid yw addysgu a dysgu yn cwmpasu elfen fandadol ACRh oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn y Cod.

Mae rhoi'r Cod ar waith mewn ysgolion a lleoliadau yn broses sydd wedi'i chynllunio i ddigwydd rhwng mis Medi 2022 hyd at flwyddyn academaidd 2026/27 wrth i Gwricwlwm Cymru gael ei gyflwyno ar draws ysgolion a lleoliadau. Ategir y Cod gan ganllawiau statudol a ddyroddir o dan adran 71 o'r Ddeddf.

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Cod drafft.

Rhiant-Ddeddf: Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
Fe'u gwnaed ar:
Fe'u gosodwyd ar:
Yn dod i rym ar: